Pecyn Dogfennau

Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth
Pensiwn Cymru
Uned Gwasanaethau Democrataidd
Adran y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gar
Neuadd y Sir
Caerfyrddin SA31 1JP.

DYDD LLUN, 17 MEDI 2018

AT: HOLL AELODAU'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** A GYNHELIR YN **SIAMBR DAFYDD ORWIG, CYNGOR SIR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH** AM **10.00 AM, DYDD MAWRTH, 25AIN MEDI, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Mark James

PRIF WEITHREDWR

CYNGOR SIR GAR

SYLWCH: BYDD Y CYFARFOD HWN YN CAEL EI FFILMIO I'W DDARLLEDU'N FYW NEU AR ÔL I'R CYFARFOD ORFFEN. GALLAI'R LLUNIAU A'R SAIN A RECORDIR GAEL EU DEFNYDDIO AT DDIBENION HYFFORDDI YN GYFFREDINOL

Swyddog Democrataidd:	**Gaynor Morgan**
Ffôn (llinell uniongyrchol):	**01267 224026**
E-bost:	**GMorgan@sirgar.gov.uk**
Linc Gwe-Ddarlledu	https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
8 AELOD
(1 Aelod etholedig o bod Awdurdod Cyfansoddol

CYNGOR SIR GAR

CYNGHORYDD **ELWYN WILLIAMS**

DINAS A SIR ABERTAWE

CYNGHORYDD **CLIVE LLOYD**

CYNGOR DINAS CAERDYDD

CYNGHORYDD **CHRISTOPHER WEAVER**

CYNGOR SIR Y FFLINT

CYNGHORYDD **DAVID HUGHES**

CYNGOR SIR GWYNEDD

CYNGHORYDD **JOHN PUGHE ROBERTS**

CYNGOR SIR POWYS

CYNGHORYDD **PETER LEWIS**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYNGHORYDD **MARK NORRIS**

CYNGOR BWRDEISDREF SIROL TORFAEN.

CYNGHORYDD **GLYN CARON**

A G E N D A

1.	**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**	
2.	**DATGANIADAU O FUDDIANT**	
3.	**LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR**	5 - 8
4.	**CYFLWYNIAD GAN LINK AR CERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD**	9 - 18
5.	**GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'RMATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y CYD-BWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HON YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.	
6.	**CYFLWYNIAD GAN LINK / RUSSELL AR IS-GRONFEYDD ECWITI Y DU A EWROPEAIDD**	19 - 40

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Llun, 11 Mehefin 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mark Norris (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
Y Cynghorydd Stephen Churchman - Cyngor Sir Gwynedd;
Y Cynghorydd David Hughes - Cyngor Sir y Fflint;
Y Cynghorydd Peter Lewis - Cyngor Sir Powys;
Y Cynghorydd Philip Downing - Dinas a Sir Abertawe;
Y Cynghorydd Chris Weaver - Dinas Caerdydd;
Y Cynghorydd Elwyn Williams - Cyngor Sir Caerfyrddin;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith - Cyngor Sir Caerfyrddin
D. Edwards - Cyfarwyddwr Cyllid - Cyngor Sir Gwynedd
J. Dong, Prif Swyddog Technegol a'r Trysorlys - Dinas a Sir Abertawe
C. Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau – Dinas Caerdydd
C. Lee, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Rheng Flaen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
P. Latham, Rheolwr y Gronfa Bensiwn – Cyngor Sir y Fflint
C. Hurst, Rheolwr y Gronfa Bensiwn – Cyngor Sir Powys
N. Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
A. Parnell, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn - Cyngor Sir Caerfyrddin
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol:-
Denise Jones – Pennaeth Rheoli Newid Link Fund Solutions;
James Wilson – Link Fund Solutions
Gareth Malna – Burgess Salmon
William Marshall – Hymans Robertson

Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW - 2.00 - 3.45 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Caron (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) a C. Lloyd (Dinas a Sir Abertawe)

2. PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN GALENDAR NESAF.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd M. Norris yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

Mynegodd y Cadeirydd, yr Aelodau a'r swyddogion eu gwerthfawrogiad i'r Cynghorydd Churchman am ei flwyddyn fel Cadeirydd.

3. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd P. Lewis yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

4. DATGANIADAU O FUDDIANT.

Y Cynghorydd	**Datgan Buddiannau Personol**
S. Churchman	Aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd;
D. Hughes	Aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd;
T. Lewis	Aelod o Gronfa Bensiwn Powys;
P. Downing	Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe;
M. Norris	Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf;
E. Williams	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed.
C. Weaver	Aelod o Gronfa Bensiwn Caerdydd;

(Sylwer: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod).

5. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 28AIN MAWRTH, 2018.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 28 Mawrth 2018 gan eu bod yn gywir.

6. CYFLWYNIAD GAN LINK A'R AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD.

Croesawyd Denise Jones sef Pennaeth Rheoli Newid Link Fund Solutions gan y Cadeirydd i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad ar y cerrig milltir allweddol a'r cynnydd o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Rhoddodd Ms Jones restr i'r Pwyllgor o'r dyddiadau dros dro ar gyfer y cerrig milltir allweddol, y cynnydd hyd yma a'r camau nesaf. O ran y cerrig milltir allweddol, roedd yr elfen bwysicaf yn ymwneud â chymeradwyo prosbectws y Gronfa er mwyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Cafodd y Prosbectws hwnnw ei osod ar agenda'r Cyd-bwyllgor y diwrnod hwnnw er mwyn ei ystyried, ac os byddai'n cael ei gymeradwyo, y bwriad oedd ei gyflwyno ar 15 Mehefin, 2018. Os caiff ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, byddai'r is-gronfeydd yn cael eu lansio ar 15 Hydref, 2018

Dywedodd Ms Jones fod y cerrig milltir allweddol eraill yn cynnwys:-

- Cytundebau'r Rheolwyr Buddsoddi. Roeddent wedi cael eu cyflwyno i'r holl reolwyr buddsoddi ar gyfer y set gyntaf o is-gronfeydd a dechreuwyd ar y trafodaethau yn dilyn hyn.
- Byddai gweithgor swyddogion yn cael ei gynnal ar 27 Mehefin i drafod y pecyn adroddiadau arfaethedig er mwyn dechrau ar y gwaith o'i ddatblygu.
- Byddai ail ran yr is-gronfeydd yn cael ei hystyried gan y gweithgor swyddogion ar 27 Mehefin er mwyn ei chyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol erbyn 27 Medi, a'i lansio yn Ionawr, 2019.

Cyfeiriwyd at y cytundebau pleidleisio arfaethedig a dywedwyd wrth y Pwyllgor er iddynt gael eu cyflwyno i'r swyddogion, byddent yn cael eu hystyried ymhellach yn ystod y Gweithgor Swyddogion ar 27 Mehefin.

Rhoddodd Mr Anthony Parnell y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol i'r Pwyllgor o ran cyfrifoldebau'r awdurdod cynnal:-

- Staffio – roedd y swyddog S151 yn ystyried cefnogi'r prinder presennol o ran staffio yn yr awdurdod cynnal ac roedd gwaith yn cael ei ailddosbarthu lle bo'n bosibl.
- Cyfathrebu –roedd y gwaith o ran datblygu'r wefan a'r llythyr newyddion wedi cael ei oedi oherwydd y pwyslais a roddwyd ar baratoi prosbectws y Gronfa. Byddai'r gwaith o ran hynny yn cael ei gyflawni dros yr haf.
- Llywodraethu – roedd y trefniadau yn gweithio'n dda ar hyn o bryd o ran y Cyd-bwyllgor a'r swyddogion.
- Adrodd – byddai pecynnau'n cael eu cyflwyno i'r gweithgor swyddogion ar 27 Mehefin gyda golwg ar sicrhau cysondeb yn yr adroddiadau â'r cronfeydd eraill. Roedd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal â'r grŵp adrodd CIPFA o ran ei ddisgwyliadau ynghylch darparu adroddiadau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y diweddariadau.

7. NODIADAU CYFARFODYDD Y GWEITHGOR SWYDDOGION A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

8. 9FED MAWRTH, 2018;

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn nodiadau'r Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018.

9. 20FED EBRILL, 2018.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn nodiadau'r Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2018.

10. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

11. PROSBECTWS YR AWDURDOD YMDDYGIAD ARIANNOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat, gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad yn cynnwys manylion am y cyfleoedd buddsoddi a oedd eto i'w trafod yn llawn neu'u haildrafod a byddai datgelu'r cyflwyniad yn tanseilio'r trafodaethau hynny ac yn effeithio ar gostau ac enillion y Gronfa.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Mr James Wilson o Link Fund Solutions a roddodd drosolwg o'r prosbectws Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w gyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer yr Is-gronfeydd a fyddai'n cael eu gweithredu a'u rheoli gan Link Fund Solutions .

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau am y prosbectws, yn dilyn hyn gadawodd cynrychiolwyr Link Fund Solutions y cyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor gael cyngor cyfreithiol gan Burges Salmon ynghylch y Prosbectws a'r Llythyr Ategol. Gwnaed sylwadau mewn perthynas â'r llythyr ategol, yn dilyn hyn derbyniwyd ei fod yn briodol.

Cafodd cynrychiolwyr Link Fund Solutions eu galw yn ôl i'r cyfarfod a rhoddwyd gwybod iddynt am y pryderon a'r sylwadau a fynegwyd ynghylch y llythyr ategol. Cadarnhaodd y cynrychiolwyr fod eu cynghorwyr cyfreithiol yn cytuno â chynnwys y llythyr ategol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

11.1 Bod y prosbectws ar gyfer ei gyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cael ei gymeradwyo;

11.2 Bod bob awdurdod gweinyddu yn llofnodi ac yn selio'r Llythyr Cytundeb Ategol dyddiedig 12 Mehefin 2018 ac yn ei ddychwelyd at yr awdurdod cynnal.

CADEIRYDD _____ **DYDDIAD** _____

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 25 MEDI 2018

PWNC

CYFLWYNIAD GAN LINK A'R AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD

YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

I dderbyn cyflwyniad gan Link a'r awdurdod cynnal ar gerrig milltir a diweddariad cynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

RHESYMAU:

Link a'r awdurdod cynnal i ddarparu diweddariad ar gerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif ffôn. 01267 224160**
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**e-bost:** **CMoore@sirgar.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 25 MEDI 2018

CYFLWYNIAD GAN LINK A'R AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Link a'r awdurdod cynnal i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar gynnydd a cherrig milltir Partneriaeth Pensiwn Cymru.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	YDY

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **DIM**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
.				

YMGYNGHORIADAU

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad i Wybodaeth **Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **MAE MANYLION Y RHAIN ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Rhif Cyfeirnod y Ffeil**	**Lleoliadau ble mae'r papurau ar gael i'w gweld gan y cyhoedd/DOLEN I'R WEFAN**

Cyd-bwyllgor Llywodraeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Dyddiad 25 Medi 2018

Version 0.1

Part of **Link Group**

Cerrig Milltir

Tasg	Date	COG	Sylw/ Cyfrifoldeb
Cytuno ar is-gronfa gychwynnol	28/03/18	C	
Cytuno ar Dempled Adrodd	30/09/18	G	Pecyn enghreifftiol a ddarparwyd i OWG, sesiwn pellach i'w gynnal i drafod adborth a chwblhau cynlluniau cyflawni
Cytundeb y Rheolwr Buddsoddiadau	30/09/18	G	Mae trafodaethau IMA ar y gweill, yn disgwyl y bydd pawb yn cael eu llofnodi erbyn diwedd y mis
Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa	11/06/18	C	
Cyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol	24/06/18	C	
Lansio'r Gronfa	15/10/18	G	
Cytuno ar Gronfeydd – **Tranche 2**	25/07/18	C	Cytunodd dau gronfa Ecwiti DU ac Ecwiti Ewropeaidd cyn y DU
Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa	05/10/18	G	
Cyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol – Tranche 2	05/10/18	G	
Lansio'r Gronfa – Tranche 2	07/01/19	G	
Cytuno ar Gronfeydd – **Tranche 3**	06/11/18	G	Mae rheolwr yn rhestru cymeradwyaeth ar gyfer trydydd gyfran o arian
Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa	11/01/19	G	
Cyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol – Tranche 3	16/01/19	G	
Lansio'r Gronfa – Tranche 3	18/04/19	G	

Y Cynnydd hyd yn hyn

Cronfeydd Cychwynnol

- Derbynwyd cymeradwyaeth Awdurdod Ymddygiad Ariannol 24 Gorffenaf 2018
- Tendr Rheolwr Trosglwyddo wedi'i gyhoeddi 10 Awst 2018 – ymatebodd pob cynigydd
- Diwrnod Cychwynnol y Rheolwr 5 Medi – Rheolwyr Twf Byd-eang a 3 o reolwyr Cyfleoedd Byd-eang
- Trafodaethau contract ar y gweill efo Northern Trust am:
    - Adneuo – Sylwebau Burgess Salmon cyfeiriwyd efo NT ar gyfer cynhyrchu copi gweithredu.
    - Cytundeb gweinyddol (Asiant Cyfrifo a Throsglwyddo'r Gronfa) – adolygiad cychwynnol wedi'i gwblhau a sylwadau yn ôl gyda NT.
    - Llythyrau Ymgysylltu ag Archwilwyr, Cwmnïau Cyfreithiol a Threth – Wedi'i cwblhau

Tranche 2

- Cynigion cyllido y cytunwyd arnynt gydag awdurdodau lleol buddsoddi
- Prosbectws – Ychwanegiadau Atodlen 5 ar gyfer arian tranche 2, barod am cymeradwyaeth Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Y Camau Nesaf

- Tranche 2, Cyflwyniad Awdurdod Ymddygiad Ariannol – **Link Medi 2018**
- Penodi Rheolwr Trosglwyddo – **Partneriaeth Pensiwn Cymru 11 Hydref 2018**
- Cytuno ar gynigion Incwm Sefydlog – **Link 6 Tachwedd 2018**
- Lansio arian cyntaf – **15 Tachwedd 2018**

Diweddariad Awdurdod Cynnal

- Staffio
- Cyfathrebu
- Llywodraethu
- Adrodd

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol